# HEDDWCH

Rhifyn 86 > Ebrill 2024 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

## Paratoi ar gyfer rhyfel diymatal?

**“... rydym wedi cwblhau cylch cyflawn, gan symud o fyd ôl-ryfel i fyd cyn-rhyfel. Cafodd oes o ddelfrydiaeth ei disodli gan gyfnod o realaeth pengaled...”**

Grant Shapps, Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, 15 Ionawr 2024

**“Y peth gwirioneddol radical yw gwneud gobaith yn bosibl yn lle gadael i anobaith argyhoeddi.”**

Raymond Williams,
Sosialydd Cymreig
(1921-1988)



*A OES HEDDWCH?*



# Pam y mae'n rhaid i brotestiadau Gaza barhau

Yn ôl Monitor Hawliau Dynol Euro-Med, yn ystod 3 wythnos gyntaf Rhyfel Gaza gollyngwyd dros 25,000 tunnell fetrig o ffrwydron ar Lain Gaza, o gymharu â'r 15,000 tunnell cyfatebol a ollyngwyd ar Hiroshima ym 1945.

Ymateb llywodraeth asgell-dde eithafol Israel i ymosodiad milain y 7 Hydref gan Hamas yw rhyfel maith a diwahân sydd wedi arwain at ddadleoli 1.9 miliwn o bobl, marwolaeth 30,000 o sifiliaid gan gynnwys 11,000 o blant, a gwadu cyflenwadau hanfodol fel pŵer, bwyd a dŵr. Golygodd hynny dorri cyfreithiau dyngarol rhyngwladol a chyfreithiau rhyfel dro ar ôl tro. Mae'r cyfreithiau hyn yn cwmpasu pawb, boed yn unigolion, grwpiau neu wladwriaethau. Nid yw dialedd yn amddiffyniad cyfreithlon mewn unrhyw lys barn.

Gwerthoedd craidd pob ymgyrch dros ddiarfogi niwclear yw hawliau dynol a'r angen i reoli a gwahardd arfau dinistr torfol trwy drefn fyd-eang sy'n seiliedig ar reolau. Y Cenhedloedd Unedig yw'r cyfrwng y byddwn drwyddo'n gweithredu'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW).



RAF y Fali: Na i BAE Systems

*Llun: Philip Steele*

Mae'r ffaith fod Israel yn parhau i anwybyddu penderfyniadau'r CU dros flynyddoedd lawer, a'r UD a'r DU yn ymatal a defnyddio'u feto yn y Cyngor Diogelwch, yn tanseilio egwyddorion democrataidd sylfaenol â'u safonau dwbl. Byddai heddwch cyfiawn i'r Palestiniaid o fudd i'r hollfyd, gan gynnwys Israel.

Rhaid condemnio anghyfiawnder pan welwn ni hynny os am gadw ein cwmpawd moesol. Nid yw gwleidyddion sy'n beio protestwyr yn hytrach na throseddwyr rhyfel yn haeddu ein cefnogaeth. Rhaid i'r gorllewin roi'r gorau i arfogi Israel a sicrhau heddwch gwirioneddol, cyfiawn a pharhaol i holl bobloedd y rhanbarth: dim mwy o adleisio ystrydebau heb wneud dim byd. Nid diwedd yw cadoediad, ond cam cyntaf.

## *Yn y rhifyn hwn*


Yn y newyddion: Philip Steele
**Rhyfeloedd a sôn am ryfeloedd** 3

Rhyfel a'r hinsawdd: Rhun Dafydd
**Effaith ar yr amgylchedd** 4

Dadfuddsodi: Brian Jones
**Peidiwch â bancio ar y bom** 5

Llythyron a nodiadau
**Canu dros Gaza** 6

Rhyfel yn Gaza: Beth Winter AS
**Er mwyn dynoldeb** 7

Heddwch ar Waith: Sam Bannon
**Safwn gyda'n gilydd** 8

Breudeth 2024: Jill Evans
**Herio'r radar 'rhyfela gofod' yma** 9

Newyddion Cymru
**O Fôn i Fynwy** 10-11

**Adolygiadau: Teledu a llyfrau**
Alison Lochhead, David Harries 12-13

**Er cof**
Joan Judson gan Alison Jackson 14
Myrla Eastland gan Jill Eastland 15

**CND Cymru**
Cysylltiadau 16



# Trident yn methu eto...

Ar 30 Ionawr 2024, aeth lansiad prawf diweddaraf taflegryn Trident anarfog o long danfor niwclear *HMS Vanguard* yn ffliwt, matsien wleb gwerth £17m o bunnau. Eto fyth.

*Ymgais gynharach: yr 'olwyn Gathryn'*

## RHYFELOEDD A SÔN AM RYFELOEDD

**Netanyahu sy'n gwarchod lleoliad y drosedd. 'Dim i'w weld yma, bois ... 'Mlaen â chi, plîs! S'da chi ddim rhyfeloedd eraill i boeni amdanyn nhw?' Wel, oes, debyg. Yn lle diplomyddiaeth, strategaeth neu ddatrysiad (heb sôn am egwyddorion), cawn gynnwrf ac ymarfogi, a gwleidyddion a chyn-gadfridogion yn codi bwganod am ryfel buan.**

• Cyn hir bydd NATO yn ymladd y Rwsiaid ar strydoedd Ewrop, yn ôl 'arbenigwyr' milwrol.

• Mae gan y Rwsiaid fom gofod newydd, medd Gweriniaethwyr yr UD. (Bydd Putin yn gwadu'r hyn, wrth gwrs, a dydy rhai dadansoddwyr gorllewinol ddim yn credu hynny chwaith).

• Mae Grant Shapps, yn dynwared rhywun o genhedlaeth 'gyn-rhyfel', yn brolio'r 'cynnydd mwyaf mewn gwario ar amddiffyn ers y Rhyfel Oer – £5 biliwn pellach y llynedd i ailgyflenwi ein stociau a moderneiddio'n menter niwclear...'

• Gwerthodd cwmni arfau anferth BAE Systems, sydd wedi hen ymsefydlu yng Nghymru, werth £25.3 biliwn o arfau yn 2023.

• Yn ôl Patrick Saunders, Pennaeth y Staff Cyffredinol, rhaid i baratoi ar gyfer rhyfel posibl ar dir fod yn ymdrech 'cenedl-gyfan'. Mae'n canmol gwledydd agosach at Rwsia am 'osod sylfeini call ar gyfer ymfyddino cenedlaethol.'

• Mae rhai yn galw nid am gonsgripsiwn ond am fyddin dinasyddion (reit handi mewn coup!).

• Medd y *Telegraph*, 'Arfbennau i'w lleoli yn RAF Lakenheath am y tro cyntaf ers 15 mlynedd, datgela dogfennau'r Pentagon, wrth i Moscow rybuddio am 'gynyddu paratoadau'.

• Ar 26 Ionawr 2024, postiodd Gorchymyn Cyfunol Rhyfela NATO:

'Mewn arddangosiad sylweddol o allu milwrol, cyhoeddodd NATO ei fwriad i gynnal Steadfast Defender 2024 yn y misoedd nesaf, yr ymarfer milwrol mwyaf yn Ewrop ers y Rhyfel Oer. Gyda tua 90,000 o filwyr o bob un o gynghreiriaid NATO, yn ogystal â'n partner Sweden, yn cymryd rhan, mae'r ymarfer ar fin profi a mireinio cynlluniau amddiffyn NATO...'

(Mwy o embaras i'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedyn pan na allai prif long gludo awyrennau'r DU ddod i'r parti, gan ei bod wedi torri i lawr).

• Yn sgil marwolaeth gwrthwynebydd Vladimir Putin, Alexei Navalny, ar 16 Chwefror, polisi NATO yw cynyddu sancsiynau a bygwth. Mae hyn yn gweddu i'r dim i naratif Putin, sy'n ymateb â bygythiad o ryfel niwclear.

• Mae'r cymhlyg milwrol-diwydiannol yn cyllido a dargyfeirio cyrsiau prifysgol i ddibenion milwrol: $128m i 16 prifysgol yn Awstralia i hyfforddi peirianwyr ar gyfer cytundeb AUKUS. *AUKUS yn dod i Gaerdydd! Gweler tud. 9*

• Ym mis Ionawr 2024, am yr ail flwyddyn o'r bron, mae'r *Bulletin of Atomic Scientists* yn gosod Cloc Dydd y Farn ar 90 eiliad i hanner nos. Fel cyfrif i lawr at drychineb, efallai bod hyn yn ymddangos yn optimistaidd braidd!

**PHILIP STEELE**

# EFFAITH AMGYLCHEDDOL


*Drôn o Wcráin yn ffrwydro storfa olew Rwsiaidd 2024*

Mae'n syndod mor brin yw'r ymchwil a'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a militariaeth, ond mae effaith rhyfel a'r diwydiant arfau ar yr hinsawdd i'w weld ar sawl lefel, o'r deunydd crai a'r egni sydd ei angen i gynhyrchu arfau, i'r llygredd a'r $CO_2$ a gynhyrchir gan hyfforddi milwrol a rhyfeloedd. Rhaid ystyried hefyd y difrod y gall rhyfel ei achosi i'r amgylchedd, a sut y gall newid yn yr hinsawdd ei hun arwain at wrthdaro a rhyfel.

Un o'r prif resymau dros ddiffyg gwybodaeth neu ddata agored am y cysylltiad hinsawdd-militariaeth yw bod gwledydd yn gyndyn o rannu am resymau 'diogelwch'. O ganlyniad, prin yw'r atebolrwydd am weithredu milwrol ledled y byd, ac ers Protocol Kyoto 1997 yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, does dim rhaid i wledydd gynnwys eu gweinyddiaeth amddiffyn na'u diwydiant arfau yn eu targedau ar gyfer gostwng allyriadau.

### Y diwydiant arfau

Er gwaetha'r prinder ymchwil, ceir ymchwil gadarn sy'n dangos y cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a'r diwydiant arfau. Amcangyfrifir y daw 5.5% o allyriadau byd-eang o filitariaeth, sef 2.2 biliwn tunnell o $CO_2$. A rhoi hynny yn ei gyd-destun, mae'r diwydiant hedfan yn cynhyrchu 2.2% o allyriadau byd-eang, ac mae effaith y diwydiant hwnnw ar y blaned yn destun sylw cyson. O graffu'n fanylach, ystyriwch allyriadau'r jet ryfel F-35, sy'n aml yn ymarfer uwchlaw tir ac arfordir gorllewin Cymru. Ar gyfartaledd mae un hediad F-35 yn gollwng cymaint o $CO_2$ ag y mae car cyffredinol yn ei allyrru mewn blwyddyn.

### Niwed i'r hinsawdd a'r amgylchedd

Cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig yn 2020 bod cyswllt uniongyrchol rhwng newid yn yr hinsawdd a rhyfel, gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol, Miroslav Jenča, yn datgan, 'Mae newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu gwrthdaro presennol ac yn debygol o arwain at rai newydd.' Ers 2008 mae Prydain wedi allforio gwerth £1biliwn o offer milwrol i 39 o'r 40 o wledydd a fygythir fwyaf gan effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys gwledydd fel Pakistan a Somalia.

A beth am arfau niwclear, bygythiad cynyddol i boblogaethau ledled y byd? Mae'r newid yn yr hinsawdd yn drychineb raddol, sydd yn amlwg yn bygwth pob cymuned. Er ein bod yn canolbwyntio ar hynny fel y bygythiad mwyaf, mae cysylltiad cynhenid rhwng y ddau argyfwng dirfodol hyn. Mae ymchwil ddiweddar gan Goleg Prifysgol Llundain yn amlygu perygl cyfredol gwrthdaro niwclear, gyda'r arfau mwyaf â'r gallu i greu cwmwl trwchus a fyddai'n gorchuddio'r rhan fwyaf o'r blaned, gan beri i dymheredd y byd ostwng o 10°C gan ddinistrio amaethyddiaeth ryngwladol.

Dim ond crafu'r wyneb a wna'r uchod, ond mae'n rhaid i ni ddechrau sicrhau atebolrwydd am y cysylltiadau rhwng newid yn yr hinsawdd a'r diwydiant arfau, a sut mae rhyfeloedd yn difetha ein planed.

**RHUN DAFYDD**




*OtherWords*

---

## DADFUDDSODDI

# PEIDIWCH Â BANCIO AR Y BOM!

**Ac yn awr, tipyn o newyddion da! Ar 22 Chwefror 2024 dangosodd adroddiad PAX/ICAN newydd, *Untenable Investments*, fod nifer y buddsoddwyr yn y 24 cwmni sy'n adeiladu arfau niwclear yn parhau i ostwng – am y drydedd flwyddyn yn olynol! Mae'n edrych fel pe bai bodolaeth Cytundeb y CU i Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) yn dechrau brathu.**

- Gostyngodd cyfanswm y buddsoddwyr o 306 i 287.
- Mae cyfanswm gwerth yr holl fuddsoddiadau yn uwch na'r llynedd – daw'r cynnydd o fenthyciadau a chyfranddaliadau.
- Buddsoddwyr o'r UD yw'r 10 uchaf gan fwyaf. Vanguard yw'r buddsoddwr mwyaf o hyd, gyda $72.4 biliwn wedi'i fuddsoddi mewn cyfranddaliadau a bondiau prif gwmnïau'r diwydiant arfau niwclear.
- Y tu allan i'r UD, y prif fuddsoddwr yw Sun Life Financial o Ganada sydd wedi buddsoddi $8.7 biliwn mewn cynhyrchwyr arfau niwclear.

* Does nemor ddim wedi ei fuddsoddi gan fanciau gwledydd a ymunodd â'r TPNW.

**BRIAN JONES**

# FEDRWCH CHI HELPU?

Os oes gennych ddiddordeb mewn rhoi help llaw i ni yn CND Cymru, da chi, ebostiwch brian.jones@phonecoop.coop am wybodaeth a thrafodaeth bellach. Diolch!

### Gwirfoddolwyr â sgiliau TG

Mae arnom angen gwirfoddolwr (neu wirfoddolwyr) brwdfrydig i gadw gwefan CND Cymru yn gweithio ac i'w diweddaru. Mae ein gwefan yn elfen hanfodol o waith CND Cymru o rannu gwybodaeth am heddwch a diarfogi. Gobeithio bod yna rywun sy'n fodlon cyfrannu 2-3 awr y mis i helpu i ddiweddaru'r wefan, adnewyddu'r dudalen flaen â lluniau newydd, uwchlwytho blogiau, mynd i'r afael â'r SEO, ac ati...

### Cynnig ar gyfer gŵyl ffilmiau

Awgrymwyd y dylai CND Cymru drefnu dangosiadau ffilm a digwyddiadau fel rhan o'r Ŵyl Ffilm Wraniwm Ryngwladol yn 2025. Syniad gwych, ond mae angen gwirfoddolwr(wyr) arnom i asesu logisteg, cyllid, hyrwyddo a lleoliadau ymgymeriad o'r fath. Does dim rhaid wrth brofiad tebyg, ond byddai'n werthfawr.

# Llythyron

## Canu dros Gaza

Doedd Charlotte Church ddim wedi llwyddo i gael lle i berfformio yng Nghaerdydd: ymateb corau yn bennaf oedd, 'Gaza? Rhy wleidyddol!', felly, pan ganodd Côr Cochion gyda hi mewn gwylnos yng Nghaerdydd, soniais wrthi am ein Neuadd y Gweithwyr hardd Bedwas.

Roedd yn ddigwyddiad cadarnhaol a dyrchafol, lle lleddfwyd y boen rydym oll yn ei deimlo o wylio'r hil-laddiad yn ddiymadferth trwy ganu gyda'n gilydd. Dwi erioed wedi gweld cynulleidfa a pherfformwyr mor amrywiol, o'r côr digartref, y gymuned Fwslemaidd, ymgyrchwyr profiadol, a phlant.

Drannoeth, profodd Charlotte holl gynddaredd y wasg tabloid, am feiddio sefyll i fyny dros Balesteina. Ymosododd y *Daily Mail* (cefnogwr Hitler a Mussolini yn 1933) a'r *Sun* yn ffyrnig ar ei chân dyner, 'O'r Afon i'r Lli, bydd Palesteina yn rhydd' fel un wrthsemitig, a gwawdlinio'r cyngerdd hardd fel galwad am ddinistrio Israel. Cafodd y gantores o Gymraes, a wisgai sgarff keffiyeh mewn undod â'r rhai ym Mhalestina, hefyd ei dal yn canu 'Stop the Occupation'.'

Rhoddodd y camliwio gwarthus hwn gyfle i ni ymateb trwy ledaenu'r alwad i gefnogi rhyddid artistig ac achos rhyddid Palestina ar hyd a lled y wlad.

Diolch i Neuadd y Gweithwyr Bedwas, am sefyll yn erbyn bwlio tabloid, ac i Charlotte am fenthyca ei llais hardd i'r ymgyrch.

**WENDY LEWIS**



Llun: Martin Davis Photography

*Mega-gôr! Charlotte Church gyda Chôr Cochion Caerdydd, y Côr Heb Enw, a llawer o ffrindiau yn canu yn Neuadd y Gweithwyr, Bedwas*

# ER MWYN DYNOLDEB!



*Bomio wedi ei dargedu'n fanwl-gywir?*
*Llun: Wikimedia Commons*

**Yn Gaza, rydym yn dyst i drychineb ddyngarol, ac yn sefyll ar drothwy cyflafan ymhlith sifiliaid os bydd i luoedd arfog Israel, fel yr ofnir wrth i mi sgrifennu, ymosod ar Rafah.**

Ganed CND allan o ofn gallu rhyfela modern i ddinistrio poblogaethau sifil. Fe wnaeth gollwng y bom atomig ar Hiroshima a Nagasaki losgi miloedd yn ulw a gadael cannoedd o filoedd o sifiliaid eraill i farw yn yr wythnosau a'r blynyddoedd wedyn.

### Dinistr systematig

Yn Gaza heddiw, trwy adroddiadau'r cyfryngau cymdeithasol modern a delweddau lloeren yn manylu ar y difrod, gwelwn un o boblogaethau sifil trefol mwyaf dwys y byd yn cael eu gorfodi i redeg o adeilad i adeilad wrth gael eu dinistrio'n systematig.

Roedd yr ymosodiadau gan Hamas ar 7 Hydref 2024 yn arswydus. Ond gadawodd dros bedwar mis o weithredu milwrol Israel yn Gaza 30,000 o Balesteiniaid yn farw, mwy na 70,000 wedi'u hanafu a rhyw 1.7 miliwn wedi'u dadleoli o'u cartrefi ac yn byw mewn llety dros dro – gyda dros filiwn o'r rheini yn Rafah.

Mae UNRWA a sefydliadau cymorth eraill yn ei chael hi'n anodd darparu cyflenwadau oherwydd gwarchae Israel ac mae'r dinistr parhaus yn effeithio ar lanweithdra ac yn atal cyfathrebu. Dywed Médecins Sans Frontières nad oes system iechyd gwerth sôn amdani ar ôl yn Gaza.

Disgrifiodd y Wall Street Journal fomio Israel yn Gaza fel y 'rhyfel trefol mwyaf dinistriol mewn hanes modern' a dywedodd pennaeth dyngarol y CU, Martin Griffiths, fod Gaza 'bellach yn gwbl anghyfannedd.'

### Y gyfraith ryngwladol

Mae'r hyn sy'n digwydd i'r Palestiniaid yn gosb dorfol, fel y bu Ysgrifennydd Cyffredinol y CU ac asiantaethau di-ri yn datgan, ers mor gynnar â mis Hydref. Dyna pam roedd hi'n iawn bod De Affrica wedi dod â'i phryderon ynghylch y bygythiad o hil-laddiad gerbron y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, a benderfynodd bod perygl credadwy o hil-laddiad gan wladwriaeth Israel.

Ac eto, er gwaethaf y dystiolaeth gynyddol o dor-cyfraith ddyngarol ryngwladol dro ar ôl tro gan Israel, mae'r UD a'r DU yn parhau i gyflenwi arfau, ac amddiffyniad gwleidyddol i Israel.

Mae hwn yn bwnc hynod o sensitif a phwysig, a thestun gofid gwirioneddol i mi oedd gweld Tŷ'r Cyffredin yn disgyn i mewn i ffars wrth drafod galwad yr SNP am gadoediad. Cafodd y mater nid yn unig ei ddefnyddio'n warthus fel pêl-droed wleidyddol, ond bellach fel esgus i bardduo'r mudiad undod â Phalestina.

Dyna pam fod yn rhaid i aelodau CND yng Nghymru barhau i ymgyrchu dros gadoediad.

Ond yn fwy na hynny, rhaid i ni fynnu terfyn ar y gefnogaeth wleidyddol a milwrol i gyfundrefn sy'n achosi marwolaeth a dinistr y tu hwnt i eiriau. Rhaid i ni roi diwedd ar werthu arfau i Israel, rhaid i ni gymeradwyo sancsiynau ar fyddin Israel, a rhaid inni ymladd dros wladwriaeth Balestinaidd sofran.

**BETH WINTER AS**
**(Llafur, Cwm Cynon)**

# SAFWN GYDA'N GILYDD!

**Mae'r mudiad heddwch ehangach yng Nghymru a thu hwnt wrthi'n prysur ad-drefnu a thrafod y ffordd ymlaen, er mwyn ymdopi ag amserau cythryblus. Ar 17 Chwefror 2024 trefnodd Heddwch ar Waith gyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth, dan gadeiryddiaeth Esther Prytherch, gydag ystod eang o siaradwyr o lawer o gefndiroedd.**

## Ysbrydoliaeth y gorffennol

Mae gan Gymru hanes hir o brotestio gwleidyddol ac anghydffurfio crefyddol, o wrthryfel chwyldroadol Merthyr ym 1831 i waith oes Henry Richard, gweinidog ac AS (1812-1888). Yn Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch, roedd yn wrthwynebydd diflino i filitariaeth ac ymerodraeth.


## Datblygiadau diweddar

Mae tystiolaeth ddiweddar i'r ysbryd hwn yn ei amlygu ei hun yn yr Academi Heddwch, sefydliad heddwch Cymru, a sefydlwyd yn 2020. Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, ei nod yw hybu heddwch fel rhan o agenda genedlaethol a rhyngwladol Cymru. Grŵp newydd yw Heddwch ar Waith (2023) a ffurfiwyd ar y cyd rhwng CND Cymru a Chymdeithas y Cymod. Fe'i cyllidir gan Sefydliad Joseph Rowntree a'i nod yw cefnogi a chydlynu gweithredu ar lawr gwlad dros heddwch a chyfiawnder.

## Y darlun mwy

Mae ffocws CND Cymru ar faterion niwclear ac mae'n aelod o'r Ymgyrch Ryngwladol i Ddileu Arfau Niwclear (ICAN). Mae wrth graidd rhwydwaith o grwpiau gweithredwyr a chyrff anllywodraethol sy'n ceisio heddwch a chyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau o grwpiau gwleidyddol, pleidiau mawr a bach ac undebau llafur; grwpiau ieuenctid, fel yr Urdd; grwpiau diwylliannol a chymunedol; grwpiau amgylcheddol; grwpiau ffydd a seciwlar, archifwyr ac actifyddion, academyddion, cyrff rhyngwladol fel y Ganolfan Materion Rhyngwladol (WCIA) a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig (UNA), cyn-filwyr dros heddwch; gwrthwynebwyr profion niwclear, ynni niwclear, NATO a'r fasnach arfau; gwrthwynebwyr cydwybodol; cefnogwyr hawliau dynol. Mae gennym ein gwahaniaethau, tu fewn a thu allan i CND Cymru, ond mae gennym lawer o werthoedd yn gyffredin, a dyna yw ein cryfder. Gyda'n gilydd gallwn siarad gwirionedd wrth rym.

**SAM BANNON**




*Llun: Heddwch ar Waith*

# HERIO'R RADAR 'RHYFELA GOFOD' YMA

**Mae CND Cymru yn sefyll ochr yn ochr ag ymgyrchwyr Sir Benfro i wrthwynebu lleoli'r 'Deep Space Advanced Radar Capability' (DARC) ar safle Barics Cawdor. Mae'n rhan o rwydwaith o dair gorsaf radar a fydd yn cael eu gweithredu ar y cyd i adnabod gwrthrychau yn y gofod dwfn a dilyn eu trywydd, o dan bartneriaeth amddiffyn AUKUS y DU, UDA ac Awstralia. Sir Benfro yw'r safle dewisol yn y DU.**




*Atal militareiddio'r gofod!*
*Llun: Roy Jones*

## Dysglau anferth

Mae hwn yn ddatblygiad mawr. Bwriedir lleoli saith ar hugain o ddysglau ger Breudeth. Sgrifennodd David Webb (y Rhwydwaith Byd-eang yn Erbyn Arfau ac Ynni Niwclear yn y Gofod) yn Heddwch 84 y byddai pob un o'r 21 o ddysglau derbyn yn 20m o uchder a 15m o ddiamedr, yn ogystal â chwe dysgl drosglwyddo o'r un maint.

Mae'r llywodraeth yn honni mai ymateb yw hyn i berygl cynyddol o ryfel yn y gofod, ac un o amcanion allweddol Strategaeth Amddiffyn Gofod y DU 2022. Fe'i gwnaed yn glir gan yr Unol Daleithiau mai ei nod yw dominyddu'r gofod a'i bod yn barod i ymladd rhyfel yno. Eto fyth, mae'r DU am ddefnyddio ein tir ni ar gyfer ei chynlluniau rhyfel.

## Ymerodraeth Gymreig y WA

Mae mwy na 60 o sefydliadau a chanolfannau gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru, a hefyd ardaloedd hyfforddi, fel Pontsenni ar Fynydd Epynt, a feddianwyd at ddefnydd milwrol yn 1939. Gyda'i 31,000 erw, a 6,000 erw o goetir, dyma'r ardal hyfforddi filwrol fwyaf yn y DU.

Cafodd Sir Benfro ei hecsbloetio eisoes at ddibenion milwrol. Mae Castellmartin yn cynnwys 6,000 erw o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae Llain Amddiffyn Awyr Maenorbŷr yntau o fewn y Parc Cenedlaethol a gall danio'r taflegryn gwrth-awyren Cyflymder Uchel. Mae Gwersyll Penalun ger Dinbych-y-pysgod ar gyrion y Parc ac mae ganddo lain hyfforddi o fewn ei ffiniau. Mae 404 erw arall yn ffurfio Ardal Hyfforddi Tredeml yn ne Sir Benfro.

Mae Llywodraeth y DU am gynyddu'r gyllideb amddiffyn i 2.5% o GMC. Y lefel fyd-eang o fuddsoddiad yn y lluoedd arfog ar gyfartaledd yw 1.95% o GMC. Mae cynlluniau i gynyddu ôl-troed y fyddin yng Nghymru gyda buddsoddiad ychwanegol o £320 miliwn, yn dilyn newid cynlluniau ar ôl i Rwsia ymosod ar Wcráin. Fis Mawrth cyhoeddodd Rolls-Royce y byddai 200 o dros 400 o swyddi'n sydd i'w creu yn Llaneirwg, Caerdydd, yn adeiladu adweithyddion niwclear bach ar gyfer llongau tanfor AUKUS.

## Ceisio dyfodol gwell

Gwêl CND Cymru ddyfodol gwahanol. Credwn y gall Cymru ddatblygu'n Genedl Heddwch a chwarae rhan flaenllaw mewn sicrhau diarfogi niwclear. Yn unol â'n nodau, rydym yn gwrthwynebu paratoadau at ryfel. Mae gan Gymru'r adnoddau a'r gallu i greu swyddi a chymunedau gwyrdd, cynaliadwy, a dyna'r weledigaeth rydyn ni am ei gwireddu.

**JILL EVANS**

# O FÔN I FYNWY
## MONA TO MONMOUTH



### Achos 3 Solvay yng Nghaernarfon

Yn dilyn achosion Teledyne yn Llysoedd y Goron **Yr Wyddgrug** a **Chaernarfon** y llynedd (*gweler Heddwch 84*), bydd protestwyr Palestine Action yn wynebu achos arall Nghaernarfon ar 15 Ebrill 2024. Cyhuddir tri gweithredydd o ddringo to ffatri Solvay yn **Wrecsam** a pheintio'r adeilad â phaent gwaetgoch. Mae Solvay'n cyflenwi deunydd i UAV Tactical Systems, is-gwmni i Elbit Systems, sy'n cynhyrchu dronau marwol ar gyfer Israel. Dywedir bod Solvay'n gwneud gwaith peiriannu yn y Lan Orllewinol oresgynedig.

Ar 23 Chwefror rhybuddiodd dyfarniad ar ran y CU gan arbenigwyr annibynnol a Rapporteurs Arbennig bod yn rhaid atal cyflenwi arfau y gellir eu defnyddio i dorri'r gyfraith ddyngarol ryngwladol ar unwaith.

### Cymru'n galw am gadoediad

Ar 20 Mawrth ymgasglodd gefnogwyr CND Cymru ac Ymgyrch Cydsafiad Palesteina yng **Ngheredigion** i brotestio am gysylltiadau Llywodraeth Cymru â chwmnïau milwrol sy'n cefnogi Israel (fel QinetiQ a Thales UK/Elbit) ym **Mharc Aberporth a Maes Awyr Gorllewin Cymru**. Ymhlith y siaradwyr roedd Jill Gough a Dylan Lewis-Rowlands ar ran CND Cymru.

Ysgogodd Rhyfel Gaza yr ymgyrchu mwyaf dwys dros heddwch **ledled Cymru** ers Rhyfel Irac, ar strydoedd dinasoedd, tir prifysgolion, neuaddau tref a sgwariau pentref. Bu gwylnosau, gorymdeithiau, boicotio, picedu, cyfarfodydd cyhoeddus.

Aeth bysys gorlawn i lawr i holl orymdeithiau enfawr Llundain. Er gwaetha ymdrechion gwleidyddion a'r wasg i fychanu'r niferoedd neu i ddifrïo'r cerddwyr (eu galw'n 'dorfeydd casineb'), roedd y gorymdeithiau'n feddylgar a heddychlon, hyd yn oed wrth i'r nifer cynyddol o farwolaethau'r diniwed fynd yn annioddefol.

### Taith ieuenctid o'r Lan Orllewinol

Ymwelodd deg o bobl ifanc o Lan Orllewinol gythryblus Palestina â Chaerdydd a Chasnewydd ar 28-29 Chwefror a theithio ymlaen i'r Canolbarth, dan nawdd WCIA (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru) a'r Urdd. Mae hyn yn rhan o daith ledled y DU a drefnwyd gan Gymdeithas Cyfeillgarwch Camden-Abu Dis. Bydd y bobl ifanc yn siarad am heddwch, hawliau dynol ac amodau cyfredol ar y Lan Orllewinol. Ar gymal Cymru o'r daith byddant yn cwrdd ag aelodau o Gyngor Ieuenctid Casnewydd ac â Jeremy Miles, y Gweinidog presennol dros Addysg a'r Gymraeg.




*Cerddodd mwy na 150 o bobl trwy **Brestatyn** ar 2 Mawrth 2024 yn galw am gadoediad ar unwaith yn Gaza. Llun: David Lloyd William*



*Ymunodd aelodau CND Cymru yn y ddwy brotest ddiwethaf yn Lakenheath. Aelod o'r pwyllgor, Ali Lochhead, sy'n cydlynu protestiadau Cymreig newydd. Llun: Peter Adamson*

## Cymru i Lakenheath

Mae'r newyddion bod arfau niwclear yr UD yn debyg o gael eu lleoli yn 'RAF' Lakenheath yn Suffolk wedi cyffroi ymgyrchwyr heddwch ledled Cymru. Gellir gweld gweminar CND Prydeinig ar y 26 Chwefror sy'n archwilio'r mater ar *https://cnduk.org/cnds-lockdown-seminars/* Mae gweithredoedd, yn cynnwys protest fawr ddydd Sadwrn 11 Mai, yn cael eu cydlynu gan gynghrair weithredu newydd, gw. *http://lakenheathallianceforpeace.org.uk/*

## Neges Heddwch yr Urdd

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd 2024 yr haf yma ger **Meifod**, Powys. Bydd y Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni yn dathlu canmlwyddiant Deiseb Heddwch menywod Cymru 1923-24 (gweler Adolygiad t15). Mae neges 2024 yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu ac eiriol yn barhaus dros heddwch. Mae'n mynnu bod yn rhaid atal erchyllterau, rhyfeloedd, a thrais, ac mai cydweithrediad, angerdd a gobaith yw'r grymoedd a all ein harwain at ddyfodol gwell.

## Welwn ni chi ym Mhontypridd!

Rhowch y dyddiadau yn eich dyddiadur nawr: o 3-10 Awst 2024 bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i **Bontypridd**. Bydd CND Cymru yn y Babell Heddwch fel erioed a heb os, bydd protestiadau, cerddoriaeth, trafodaethau a sgyrsiau. Efallai y carai ein cefnogwyr o Rondda Cynon Taf ddod draw i roi help llaw.

## Menywod dros heddwch

Fis Mawrth cynhaliwyd cyfarfod bywiog yng **Nghaerdydd** gan Gynghrair y Comiwnyddion Ifanc, i gofio Menywod Cymru a Chomin Greenham. Dathlodd yr **Amgueddfa Werin** Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod drwy agor arddangosfa newydd yn **Sain Ffagan** o Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru 1923, ochr yn ochr â baneri i'n hysbrydoli o Wersyll Heddwch Menywod Greenham o'r 1980au, llawer ohonynt o waith Thalia Campbell. O'r 9 Mawrth i'r 15 Medi, mynediad am ddim.

## Gwyrddio Ynys Môn

Cafodd y newyddion bod llywodraeth y DU yn prynu safle niwclear **Wylfa** gan Hitachi ei wfftio gan ymgyrchwyr ac arbenigwyr ill dau fel darn chwerthinllyd o ymgyrchi etholiadaol. Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llangefni ar 16 Mawrth a anerchwyd ar-lein gan Dr Paul Dorfman, roedd y pwyslais ar y cyfleoedd a gynigir gan ddatblygiad anataladwy ynni adnewyddadwy go iawn.




*Aelodau CND Cymru a PAWB yng **Nghaergybi** yn cyflwyno llythyr i Virginia Crosbie AS (Ceid, Ynys Môn) yn galw am ailgynnull Pwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan ar Bŵer Niwclear ar ôl i EdF gyfaddef mai prosiect gwleidyddol yn hytrach nag un economaidd oedd adeiladu Hinkley Point C. Llun: Philip Steele*

# TELEDU




## ARMAGEDDON: HOW CLOSE ARE WE?

Jane Corbin,

BBC 2

Ionawr 2024

Saesneg

i-Player *https://www.bbc.co.uk/programmes/m001vgq5*

Fe'm gadawyd braidd yn rhwystredig gan y rhaglen ddogfen hon am arfau niwclear, gan ei bod yn anodd 'cael gafael arni'. Roedd ynddi lawer iawn o wybodaeth, ond roedd yn pendilio rhwng cyflwyno darnau hirfaith braidd ar ddatblygiad arfau niwclear, a chyfeiriadau at y ffilm *Oppenheimer* ddiweddar, arfau niwclear sydd naill ai'n ymholltol neu'n ymdoddol, a sut mae arfbennau'n cael eu cadw a'u cludo. Fe'i lluniwyd yn ôl yr amserlen gyfnewidiol tuag at Armagedon niwclear a gofnodwyd gan Gloc Dydd y Farn; a'r cwbl i gyfeiliant cerddoriaeth ddramatig.

### Ffeithiau

Rhwng hyn oll , cafwyd rhai manylion ffeithiol da am hanes arfau niwclear a'r tirweddau gwleidyddol a ddylanwadodd ar yr amrywiol gytundebau a bygythiadau, megis Argyfwng Taflegrau Ciwba 1962, y Cytundeb Atal Ymlediad yn 1968 ac yna'r cytundebau START, y llofnodwyd yr ail ohonynt yn 2010. Cafwyd ffeithiau sobreiddiol am lwyr ddiffyg unrhyw negydu ar barhau i gyfnewid gwybodaeth, archwiliadau ar y safle neu estyniad i unrhyw un o'r cytundebau ar gyfyngu neu ostwng nifer arfau niwclear. Brawychus, yn wir.

### Yn derbyn bodolaeth arfau niwclear?

Tybiai'r rhaglen fod pawb yn derbyn bodolaeth arfau niwclear. Roedd y cyfweliadau gyda phobl nad oedd yn cwestiynu hyn, er enghraifft, cyfweliad am Trident a Faslane heb unrhyw sôn am y ffaith nad yw arfau niwclear y DU yn annibynnol, ond i'r gwrthwyneb, wedi eu rheoli'n llwyr gan UDA. Y pwyslais oedd bod llywodraethau gorllewinol rywsut yn ddibynadwy tra bod 'dihiryn'-wledydd yn fygythiad. Er enghraifft; pam dim ond sôn am ogledd Korea fel un sydd ag arfau niwclear 'anawdurdodedig', heb gyfeirio at Israel hefyd?

Bu cyfeiriad byr at ymgyrchoedd fel Menywod Comin Greenham a gorymdeithiau yn yr 1980au a gwrthdystiad diweddar yn Lakenheath, ond nid y gwrthdystiadau mawr a fu yn erbyn arfau niwclear UDA yn dychwelyd i'r DU. Ychydig iawn a gafwyd, heblaw am gyfeiriad at y Cytundeb Gwahardd Arfau Niwclear (TPNW), am wyddonwyr, academyddion a llu o bobl a sefydliadau sydd wedi bod yn ymgyrchu'n ddiflino yn erbyn arfau niwclear a'u bygythiad y maent yn ei greu, nid yn unig yn filwrol a gwleidyddol ond hefyd am eu bod mor fregus. Does dim sôn ychwaith am y gwastraff adnoddau a'r oblygiadau ariannol, tra na chafodd y llu o ddewisiadau heddychlon a ffyrdd eraill o ddatrys gwrthdaro eu harchwilio.

### Neges ddryslyd?

Fe'm gadawyd heb syniad beth roedd y rhaglen yn ceisio'i ddweud. Do, fe ddywedodd ein bod mewn lle ofnadwy o beryglus ar hyn o bryd, gyda 90 eiliad ar gloc Dydd y Farn a chydag arweinwyr anghyfrifol iawn, ond dim byd am y dewisiadau mae llywodraethau yn eu gwneud, a pham mae'r gwledydd dan sylw yn benderfynol o sicrhau na cheir gostyngiad mewn arfau niwclear.

**ALI LOCHHEAD**


# LLYFRAU

## GOING NUCLEAR

**Mabon ap Gwynfor**

Cyhoeddwr: Mabon ap Gwynfor 2023, £13.00, 210tt, clawr papur

978-1-84524-540-5 *Saesneg*




Caiff y ddadl wleidyddol ynghylch ynni niwclear, fel y gwelwyd yn San Steffan, y Senedd, pleidiau gwleidyddol prif-ffrwd a'r cyfryngau, ei thywys gan lobi niwclear bwerus, fyd-eang. Mae'r honiad mai Wylfa yn Ynys Môn yw'r 'safle gorau yn Ewrop ar gyfer cynhyrchu ynni niwclear' yn fantra sy'n cael ei ailadrodd yn aml, ac eto o ran capasiti grid a chludiant ynni, agosrwydd at ddefnyddwyr ac economeg, dydy e'n gwneud dim synnwyr o gwbl.

Mae'r cysylltiadau milwrol â rhaglenni niwclear sifil bellach yn cael eu brolio gan rai fel Rolls-Royce, ond tan yn ddiweddar caent eu gwadu'n gyhoeddus. Mae'r cysylltiadau wedi bod yn amlwg o'r cychwyn cyntaf. Mae Mabon (AoS Plaid Cymru dros Ddwyfor Meirionnydd, a Chadeirydd cyfredol CND Cymru) yn cyflwyno tystiolaeth ddiwrthdro o gysylltiadau milwrol hanesyddol a pharhaus – ecomomaidd, technolegol, gwleidyddol a threfniadol. Maent yn rhan o'r hyn a ddiffiniwyd gan yr Arlywydd Eisenhower, mor gynnar â 1961, fel 'cymhlyg milwrol-diwydiannol' a bygythiad i ddemocratiaeth.

Â Mabon yn ei flaen i ddymchwel y dadleuon mai ynni niwclear yw'r ateb i argyfwng yr hinsawdd, ei fod yn ddiogel, a'r gorau am ddarparu swyddi. Mae'n nodi camymddwyn y diwydiant niwclear, megis ei ecsbloetiaeth neo-drefedigaethol o bobloedd frodorol ledled y byd.

Nid truth polemig mo'r llyfr hwn ond beirniadaeth fanwl ei hymchwil i ddiwydiant niwclear hen-ffasiwn a chynyddol wanobaith. Mae *Going Nuclear* yn gelfydd, yn gynhwysfawr ac yn gampus o gryno. Gobeithio y bydd newyddiadurwyr, ymgeisyddion gwleidyddol ar draws y pleidiau ac ymgyrchwyr fel ei gilydd yn cymryd sylw – yn ogystal â'r cymunedau hynny yng ngogledd Cymru yr addawyd iddynt y naill ffug wawr ar ôl y llall.

**PHILIP STEELE**

---


## YR APÊL 1923-24
**Hanes Rhyfeddol Deiseb Heddwch Menywod Cymru**

**gol. Jenny Mathers a Mererid Hopwood**

Y Lolfa 2023  £9.99 238tt. Clawr meddal.

978-1-80099382-2

*Dwyieithog*




Mae'r llyfr dwyieithog hwn, gyda lluniau, yn olrhain hanes cudd yr ymgyrch dros heddwch gan fenywod Cymru, ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.

Un amcan yn y 1920au oedd perswadio Cyngres ac Arlywydd yr UDA i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Gyda'r bwriad hwn, trefnwyd deiseb,  a gafodd ei llofnodi gan 390,296 o fenywod ledled Cymru, ym 1923.  Yn 1924 aeth pedair menyw o Gymru â'r ddeiseb i America, gan siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gyda'r Wasg, a gyda Calvin Coolidge yn y Tŷ Gwyn.  Arhosodd y ddeiseb yn ei chist yn Washington DC. Ond mae'r gist a'r ddeiseb newydd ddod yn ôl i Gymru, o'r diwedd – i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Cafodd dyddiadur Annie Hughes Griffiths (un o'r pedair menyw) ei drawsysgrifio gan wirfoddolwyr, ac y mae ar gael ar-lein.

Mae'r llyfr wedi'i olygu gan Jenny Matthews a Mererid Hopwood, ond mae deg person wedi cyfrannu i'r llyfr.

**Campwaith sy'n ein hysbrydoli yw'r llyfr hwn.**

**DAVID HARRIES**

# Joan Judson 1930-2023



*Joan Judson*

Roedd Joan Judson, a fu farw ar 30 Ebrill 2023 yn 93 oed, yn un o hoelion wyth y mudiad heddwch ar hyd ei hoes. Roedd colli dau o'i thri brawd yn ystod yr Ail Ryfel Byd (ac yn enwedig ei brawd ieuengaf, Kenneth, a oedd ond yn blentyn pan gafodd ei ladd yn drasig yn y Blitz yn Llundain) yn un o'r profiadau a newidiodd ei bywyd gan adael ôl annileadwy ar ei gwrthwynebiad cynyddol i ryfel fel modd o ddatrys problemau dynol.

Ar ôl y rhyfel symudodd y teulu i Gymru (i Landudno i ddechrau, yn sgil swydd ei thad gyda Chyllid y Wlad). Wedi hynny daeth gwaith Joan ei hun yn y Swyddfa Dreth â Joan a'i mam i Lanisien, Caerdydd, lle y treuliodd weddill ei hoes.

Ar hyd ei hoes bu Joan yn ymgyrchu'n ddiflino dros heddwch, cyfiawnder a hawliau dynol. Roedd hi wedi'i chythruddo'n emosiynol ac yn ddeallusol gan dystiolaeth o wahaniaethu annheg neu ormes. Roedd yr achosion a arddelodd dros ddegawdau lawer yn cynnwys nid yn unig CND a'r mudiad heddwch, ond hefyd gwrth-apartheid, cyfiawnder i Balestina, dileu tlodi byd-eang, hawliau cyflogaeth, yr amgylchedd, cefnogaeth i geiswyr lloches, a hawliau anifeiliaid.

Yn sosialydd ymroddedig a ffeminydd hunan-ddatganedig, roedd Joan hefyd yn undebwraig lafur frwd ac yn aelod hirsefydlog o'r Blaid Lafur (hynny yn llai brwd weithiau, wrth iddi ei chael hi'n anodd para'n aelod yn wyneb problemau a godwyd gan – er enghraifft – safiad yr arweinyddiaeth ar Ryfel Irac neu ddiarfogi niwclear, neu linell swyddogol y blaid ar wrthsafiad radical adain-chwith).

Ymrwymiad llwyr Joan ar lawr gwlad a'i gwnaeth hi'n hysbys i lawer. Â'i hymroddiad tawel a'i theyrngarwch di-ffael, roedd Joan yn ffigwr cyfarwydd mewn gwrthdystiadau heddwch, ar orymdeithiau trwy gydol y 1980au a'r 1990au, ar linellau piced, yn dosbarthu taflenni o ddrws i ddrws, ac mewn grwpiau cymorth (fel yn ystod streic y glowyr, neu'r ymgyrch hirfaith i alw sylw at weithgareddau'r Sefydliad Arfau Atomig lleol yn Llanisien). Roedd ei chefnogaeth gyson i'r Côr Cochion wrth iddynt ganu yng nghanol Caerdydd yn ddiarhebol, a hithau'n ysgwyd y bwced arian ac apelio ar bobl a gerddai heibio am roddion. Weithiau gallai hyn arwain at gyfarfyddiadau a allai fod yn heriol, a byddai Joan yn angerddol ac (yn allanol) yn ddi-ofn wrth amddiffyn yr achosion a oedd mor bwysig iddi.

**Roedd Joan yn ysbrydoliaeth i ni oll a mawr yw'r golled ar ei hôl**

**ALISON JACKSON**

# Myrla Eastland 1943-2023

Bu Myrla Eastland, fy mam, yn gorymdeithio'n hir ac yn galed dros heddwch a chyfiawnder am y rhan fwyaf o'i hoes. Fe'i ganed ym Mauritius a symudodd i Tangyanika (Tanzania bellach) yn dair oed. Cafodd fywyd caled a bu'n dyst i'r bar lliw trefedigaethol a gormes pobl ddu dlawd yn Affrica, a roddodd iddi syched am gyfiawnder ac am ryddhau'r gorthrymedig.

Bu'n weithgar yn wleidyddol yn ferch ifanc ar ôl symud i Lundain; wedi symud i Lanbradach ym 1978, dyma ymuno â grwpiau heddwch, ymgyrchwyr a phrotestiadau yng Nghymru. Mae gennyf atgofion byw o'n teulu ni'n bod yn gyfrifol am sefydlu a rhedeg stondin wythnosol CND Cymru yng Nghaerffili, am flynyddoedd lawer. Byddai Myrla a minnau'n ymweld â Greenham yn aml hefyd i ymuno â'r brotest lwyddiannus yn erbyn arfau Cruise niwclear a oedd wedi'u lleoli yno.

Yn nes ymlaen, ymwelodd â rhannau eraill o'r DU i brotestio am arfau niwclear ac ynni niwclear, yn cynnwys Hinckley Point, Faslane ac Aldermaston, ac ymuno â phrotest fawr CND a Stop the War yn Llundain.

Ar ôl y ddamwain angheuol mewn gorsaf ynni niwclear yn Chernobyl ym 1986, helpodd Myrla, ynghyd â 'nhad, Stuart Eastland, i sefydlu Prosiect Plant Chernobyl yng Nghymru. Ymwelsant â Chernobyl a threfnu i anfon cyflenwadau roedd mawr angen amdanynt yno, yn ogystal â chynnig gwyliau yng Nghymru i blant yr effeithiwyd arnynt gan drychineb Chernobyl. Rhoddai hynny seibiant i'r plant o'r caledi a achoswyd gan y ddamwain, ac awgrymai tystiolaeth wyddonol bod gadael yr aer llygredig a chael gwyliau yn rhywle arall yn ymestyn bywyd y plant.

**JILL EASTLAND**



*Myrla'n canu dros heddwch gyda Chôr Cochion Caerdydd*

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

| | |
|---|---|
| **gwefan** | *www.cndcymru.org* |
| **e-bost** | *heddwch@cndcymru.org* |
| **X (trydar)** | *@cndcymru* |
| **instagram** | *@cndcymru* |
| **gweplyfr** | *www.facebook.com/cndcymru/* |

## YMUNWCH Â NI NAWR!

*https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/*
O dan 25? Syml! Gallwch ymuno â ni am ddim ar-lein a lawrlwytho Heddwch o'r wefan

## CYSYLLTIADAU

**Cadeirydd**
Mabon ap Gwynfor *mabonapgwynfor@gmail.com*

**Is-gadeiryddion**
Jill Evans *jillrhondda@yahoo.co.uk*
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*

**Trysorydd/Aelodaeth**
Michael Freeman *trysorydd@cndcymru.org*
9 Bryn Briallu, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE

**Ysgrifennydd Cenelaethol Y Wasg/Cyfathrebu**
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

**Pwyllgor Gwaith**
Peter Adamson
Sam Bannon
Jill Gough
Robat Idris
Awel Irene
Alison Lochhead
Dylan Morgan
Jon Plumpton
Linda Rogers
Bethan Siân
Philip Steele


Gweithredu boicot ym Mangor

## HEDDWCH

yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn *www.cndcymru.org*

**Golygydd:** Philip Steele
*phil_steele@btinternet.com*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunydd:** Tom Pollock
*tom@excellent-design.co.uk*
Argraffwyd gan **Serol Print**, Castell-nedd 2024
*Gwaith celf*
*tud 2 Dai Owen*
*tud 10 Ruth Jên Evans*

Nid yw cynnwys *Heddwch* o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad, llythyr neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf HEDDWCH yn ymddangos ym mis Awst 2024.